# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

mydentist, Tyllgoed / Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 26 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-220-8



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........................................ 7

   Ansawdd profiad y claf ........................................ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........................................ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........................................ 20

4. Beth nesaf? ........................................ 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........................................ 23

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........... 24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................ 25

   Atodiad C – Cynllun gwella ........................................ 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o mydentist, Tyllgoed, yn 50 Heol Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd, CF5 3RE, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 26 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod practis deintyddol mydentist, Tyllgoed, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig. Fodd bynnag, daethom ar draws tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon dda.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân.
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae meysydd o dan brofiad y claf, sy'n codi yn dilyn dadansoddiad o'r atebion i holiaduron AGIC, y mae angen eu hystyried a'u gwella.
- Mae angen cynnal asesiad risg ar gyfer un aelod o'r staff wrth aros am fanylion ychwanegol ynghylch statws ei frechiadau.
- Mae angen adolygu lleoliad un o switshis ynysu periant pelydr-X ac mae angen trefnu hyfforddiant radioleg ar gyfer nyrsys deintyddol.
- Mae angen i'r practis adolygu'r prosesau archwilio a wneir er mwyn cynnwys camau gweithredu a chanlyniadau.
- Mae'n rhaid cofnodi nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae practis mydentist, Tyllgoed, yn rhan o'r grŵp mydentist.co.uk ac mae'n darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd.  Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, pum nyrs ddeintyddol, un hylenydd, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.NHS and private

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod practis deintyddol mydentist, Tyllgoed, yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da a phrofiad cadarnhaol i'w gleifion. Ar ôl adolygu'r adborth a gafwyd drwy ein holiaduron i gleifion, canfu AGIC fod yr adborth hwn yn dda mewn rhai meysydd, ac yn gymysg mewn meysydd eraill, ac amlygwyd rhai o feysydd i'w gwella o ganlyniad i hyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau; roedd y rhan fwyaf o'r holiaduron a dderbyniwyd gennym gan gleifion hirdymor yn y practis (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion ers dros ddwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gymysg. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> "Mae'n dda fel y mae.Nid oes angen newid."
>
> *"Mae'n cymryd oes i gysylltu dros y ffôn."*
>
> *"Dylent roi gwybod i chi pan fo'ch deintydd yn gadael a rhoi cyngor i chi ymlaen llaw ynglŷn â phwy yw eich deintydd newydd, ac efallai rhoi dewis i chi hefyd."*

Dylai'r practis ystyried yr adborth hwn a bydd y meysydd hyn i'w gwella yn cael eu hystyried isod.

### Cadw'n iach

Gwnaeth y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC nodi bod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu

hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd y practis yn darparu gwybodaeth hyrwyddo iechyd deintyddol yn y mannau aros. Mae hyn yn cefnogi cleifion o ran cael mynediad at wybodaeth a allai eu helpu wrth ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y dderbynfa/man aros.

## Gofal ag urddas

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Gwelsom fod agwedd y staff tuag at gleifion yn gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y gost ar gyfer unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt yn glir bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth.

Fodd bynnag, dywedodd dros hanner o'r cleifion nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Gwelsom ar ddiwrnod yr arolygiad fod y rhestrau prisiau ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn y mannau aros. Cynghorir bod y practis yn sicrhau bod y rhestrau prisiau yn cael eu harddangos yn glir, er mwyn tynnu sylw'r cleifion atynt. Gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n ymarfer yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd rhai o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn ystyried eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a gwnaethant ddweud wrthym nad oedd modd iddynt siarad â'r staff yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd pawb ar wahân i dri o'r cleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn yr iaith o'u dewis bob amser.

Dylai'r practis ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg ac anghenion iaith eraill cleifion, h.y. ystyried cyfieithu polisïau a gwybodaeth allweddol lle bo'r angen yn

cael ei nodi, e.e. y weithdrefn gwyno. Dylai'r practis sefydlu trefniant ffurfiol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau dehongli, gan fod angen cynnig gwasanaethau dehongli i gleifion os bydd angen.

Gwnaeth y cleifion sylwadau am yr oedi wrth ymateb i alwadau ffôn a'r diffyg trafodaethau priodol pan fydd ymarferwyr deintyddol yn newid. Cynghorir y practis i adolygu ei ddull o roi sylw i anghenion cyfathrebu cleifion yn y meysydd hyn.

Mae gwefan gan y practis, ond gwnaethom nodi nad oedd yn gyfredol nac yn unol â chanllawiau hysbysebu moesegol[1] y Cyngor Deintyddol Cyffredinol,[2] e.e. ystyried cynnwys y dyddiad diweddaru diwethaf, mynediad rhwydd at fanylion cwyno, cyfeiriad at AGIC nid y Comisiwn Ansawdd Gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg. Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniant ffurfiol ar waith i gael mynediad at wasanaethau dehongli.

Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru ei wefan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesegol.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt. Er hynny, gwelsom fod manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad. Cynghorir y practis i hyrwyddo'r wybodaeth hon ymhellach, er mwyn codi ymwybyddiaeth cleifion. Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael

[1] https://www.gdc-uk.org/api/files/Guidance%20on%20advertising%20(Sept%202013).pdf

[2] Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoleiddio gweithwyr proffesiynol deintyddol yn y DU, gan gynnal a chadw safonau er budd cleifion.

ei ddarparu mewn da bryd a dywedwyd wrthym fod y derbynyddion yn hysbysu'r cleifion am y rhesymau dros unrhyw oedi annisgwyl.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur AGIC gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod cynllunio ac opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod gan gleifion fynediad at wybodaeth ynglŷn â sut i ofalu am eu dannedd/deintgig ar ôl apwyntiadau a rhyngddynt.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Nid yw mynediad ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd na'r rhai sydd angen cadair olwyn yn dda yn y practis gan fod grisiau sy'n arwain at y practis. Dywedodd staff eu bod yn gallu atgyfeirio cleifion at ddeintyddfeydd eraill, lle ceir mynediad i gyfleusterau ar y llawr daear. Mae toiledau deuryw i gleifion wedi'u nodi'n glir gydag arwyddion ac mae toiledau ar gael i'r staff hefyd ar y llawr daear, gyda biniau gwaredu cadachau mislif.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gweithdrefn ysgrifenedig ar waith gan y practis ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) ynghylch triniaeth gan y GIG, a oedd yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon ynghylch triniaeth gan y GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella').[3] Roedd gwybodaeth ar wahân ar gael ar gyfer gweithdrefnau cwyno cleifion preifat, a oedd yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[4] Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y dogfennau hyn yn cael eu harddangos ym mannau aros y cleifion.

---

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

[4] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

Fodd bynnag, gwnaeth ychydig dros ddwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ddweud wrthym na fyddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Gan fod yr adborth gan gleifion yn nodi bod nifer sylweddol o'r cleifion nad ydynt wedi gweld neu'n ymwybodol o'r gweithdrefnau cwyno, mae angen i'r practis ystyried hyn. Gwelsom hefyd nad oes digon o wybodaeth mewn perthynas â'r gweithdrefnau cwyno sydd ar gael ar wefan y practis.

Dywedodd dros hanner o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent yn ymwybodol bod y practis wedi ceisio canfod eu barn am y practis deintyddol – trwy holiaduron cleifion, er enghraifft. Gwnaethom drafod y dull roedd y practis yn ei ddefnyddio i geisio adborth gan gleifion. Cawsom ein hysbysu bod arolygon cleifion yn cael eu darparu yn rheolaidd drwy negeseuon testun a bod y rhain yn cael eu hystyried gan y brif swyddfa er mwyn dysgu gwersi. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau o'r adborth a oedd wedi'i dderbyn.

Er hynny, o ystyried bod yr atebion yn yr holiaduron i gleifion yn nodi nad yw'r cleifion yn ymgysylltu â nac yn ymwybodol o'r arolygon ar ffurf neges destun yn lleol, mae angen i'r practis adolygu ei ddull o gynnal arolygon cleifion. Awgrymir y dylai'r practis ddatblygu dogfen arolwg cleifion ysgrifenedig er mwyn i gleifion roi eu hadborth. Gallai'r practis wedyn arddangos dadansoddiad o'r adborth a gafwyd yn y man aros er mwyn dangos i gleifion ei fod yn gweithredu ar adborth a bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflenwi yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis adolygu mynediad cleifion at ei wybodaeth am y weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau bod hon yn cael ei harddangos yn glir i hwyluso mynediad cleifion ati a chynyddu eu hymwybyddiaeth.

Rhaid i'r practis adolygu effeithiolrwydd y system sydd ar waith ar gyfer ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae angen rhoi systemau adborth cleifion ychwanegol ar waith er mwyn cynnig cyfle i gleifion roi eu hadborth/sylwadau yn ysgrifenedig a'u cyflwyno yn y practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae angen cynnal asesiad risg ar un aelod o'r staff wrth aros am ragor o fanylion ynglŷn â statws ei frechiadau. Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Fodd bynnag, mae angen adolygu lleoliad un o switshis ynysu peiriant pelydr-X ac mae angen trefnu hyfforddiant radioleg ar gyfer nyrsys deintyddol.

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion a allai ddod yn agored i niwed neu mewn perygl.

Mae angen i'r practis adolygu'r prosesau archwilio a wneir er mwyn cynnwys camau gweithredu a chanlyniadau. Roedd angen gwella arferion o ran cadw cofnodion.

### Gofal diogel

## Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis. Roedd tystiolaeth o dystysgrif weirio trydanol bob pum mlynedd hefyd ar gael ar gyfer yr adeilad.

Roedd toiled i gleifion a thoiled ar wahân i staff ar gael. Roedd arwyddion clir at y cyfleusterau hyn ac roeddent i'w gweld yn lân ac roedd biniau gwastraff glanweithiol ar gael. Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg er mwyn cynorthwyo staff i'w defnyddio'n ddiogel. Roedd sylweddau COSHH yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelsom nad oedd gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel ar ddiwrnod yr arolygiad, gan fod y trefniant ar gyfer cloi'r bin melyn mawr yn aneffeithiol; cywirwyd hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Cynghorir rheolwr y practis i oruchwylio dyletswyddau beunyddiol yn barhaus er mwyn sicrhau bod arferion diogel yn cael eu cynnal.

Roedd diffoddwyr tân ar gael a oedd wedi'u gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf, roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch wedi ei fabwysiadu.

## Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar bob ystafell driniaeth yn y practis, a nodi eu bod yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a’r arwynebau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol naill ai'n lân iawn neu'n weddol lân. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy’n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd gan y practis ystafell benodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol (ystafell ddadheintio) a oedd yn bodloni'r

egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)[5]

- Cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodedig i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio i lanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd offer yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio

Roedd polisi dadheintio ar waith. Canfuom dystiolaeth fod gwiriadau o ran statws brechiadau imiwneiddio wedi'u cynnal ar gyfer yr holl aelodau staff. Roedd angen rhagor o fanylion ar rai o'r cofnodion brechiadau er mwyn gwirio eu statws. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd ychydig o dystiolaeth fod y staff wedi/yn cynnal hyfforddiant dadheintio bob pum mlynedd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu asesiad risg unigol ar gyfer un aelod o'r staff lle mae cais yn cael ei wneud am fanylion ychwanegol ynghylch statws ei frechiadau.

## Rheoli meddyginiaeth

[5] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos mewn ardaloedd perthnasol. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio’n ddiogel mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a’r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys lleoliad y cyfarpar a rolau a chyfrifoldebau. Roedd swyddog cymorth cyntaf penodedig ar gael yn y practis a oedd wedi cael hyfforddiant.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Y rheswm am hwn yw bod polisïau amddiffyn priodol ar waith a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu i staff perthnasol. Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu’r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Gwelsom yn gyffredinol fod yr amgylcheddau wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Roedd ffeil ymbelydredd ar gael yn y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol mewn un man. Fodd bynnag, gwnaethom drafod bod angen i un o switshis ynysu peiriant pelydr-X gael ei ail-leoli er mwyn ei wneud yn fwy diogel ac i rwystro cleifion rhag ei gyffwrdd. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd er mwyn

sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[6] Fodd bynnag, roedd angen i rai o'r nyrsys deintyddol yn y tîm o staff gwblhau neu ddiweddaru eu hyfforddiant ymwybyddiaeth radioleg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu lleoliad un o'r switshis ynysu er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydrau-X.

Rhaid i hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd fod yn gyfredol ar lefel sy'n briodol ar gyfer nyrsys deintyddol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau ac offer radiograffeg. Fodd bynnag, roedd yr archwiliadau hyn yn ddiweddar iawn ac roedd angen cwblhau rhagor o brosesau mewn perthynas â hwy, gan gynnwys cynlluniau gweithredu, monitro a chanlyniadau. Dylai rheolwr y practis oruchwylio'r gwaith o gwblhau’r archwiliadau hyn, er mwyn sicrhau bod prosesau archwilio yn gyflawn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod prosesau archwilio yn cael eu cynnal yn gyfnodol a bod y broses yn cynnwys cynlluniau gweithredu, monitro a chanlyniadau.

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cynghorir y deintyddion i adolygu'r prosesau adolygu ansawdd gan gymheiriaid yn fewnol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys camau gweithredu a chanlyniadau. Byddai ymgysylltiad pellach â’r meysydd sy'n rhan o archwiliadau CAPRO[7] Deoniaeth Cymru yn fuddiol.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion i asesu ansawdd y dull o gadw cofnodion, ac roedd hyn yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Rhaid gwella cysondeb cadw cofnodion mewn perthynas â hanesion meddygol cleifion, a dylid cydlofnodi'r rhain yn gyson hefyd.
- Mae angen i gysondeb cyfnodau galw'n ôl gael ei asesu o ran risg a'i gofnodi. Pan fo'r cyfnod wedi cael ei gofnodi, mae angen ei ddiwygio i adlewyrchu'r risg a aseswyd.
- Mae angen gwella cysondeb cadw cofnodion ar gyfer hanes cymdeithasol cleifion a'r cyngor a roddwyd, h.y. ysmygu a'r defnydd o alcohol.
- Mae angen cofnodi rhifau swp a dyddiadau dod i ben yn gyson ar gyfer deunyddiau deintyddol.

Trafodwyd y canfyddiadau hyn â'r deintyddion. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r gwaith o gadw cofnodion yn ddiweddar, a oedd wedi nodi'r angen i wella mewn rhai o'r meysydd hyn. Byddai adolygiad o'r rhaglen archwilio gan gymheiriaid ar gyfer cofnodion cleifion yn sicrhau bod camau gweithredu dilynol

---

[7] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

a monitro ar waith er mwyn gwella ansawdd y gwaith o gadw cofnodion ymhellach.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid cwblhau camau gweithredu dilynol a gwaith monitro yn rheolaidd ar gyfer archwiliadau cadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae practis mydentist, Tyllgoed, yn rhan o grŵp mydentist.co.uk. Mae gan y practis ddau ddeintydd a thîm staff cyfeillgar a sefydlog. Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff y practis, a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer dau ddeintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae gan bractis mydentist, Tyllgoed, reolwr practis ar waith sy'n gweithio'n rhan amser i gynorthwyo â'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd rheolwr y practis ei fod yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Canfuom fod y staff yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd practis a oedd wedi cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelsom fod camau gweithredu a chofnodion yn cael eu cadw.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn fawr iawn.

Roedd gan y practis dîm staff cyson a sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi'u cofrestru i ymarfer gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: mydentist, Tyllgoed

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dim materion sicrwydd dybryd | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: mydentist, Tyllgoed

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg. Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniant ffurfiol ar waith i gael mynediad at wasanaethau dehongli. | Safonau Iechyd a Gofal 4.1, 4.2 a 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008, Rheoliad 14 (1) (a) | Gwneud trefniadau gyda'r tîm marchnata er mwyn cael copïau o'r taflenni a phosteri Cymraeg ar gyfer yr holl ddewisiadau triniaeth a hysbysiadau.<br>Mae'r staff bellach yn meddu ar y wybodaeth ar gyfer y gwasanaeth dehongli a gynigir gan y bwrdd iechyd lleol. | Ashton Jones | 28 Chwefror 2018 |
| Mae'n angen i'r practis adolygu a diweddaru ei wefan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol | Rheoliadau Deintyddiaeth | Bydd angen trefnu gyda'r tîm cymorth cleifion yn y brif swyddfa, a bydd angen | Ashton Jones | 12 Ionawr 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesegol. | Breifat Cymru 2008, Rheoliad 14 (1) (b)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hysbysebu moesegol | iddynt ddiweddaru gwefan y cwmni i gywiro hyn. | | |
| Dylai'r practis adolygu mynediad cleifion at ei wybodaeth am y weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau bod hon yn cael ei harddangos yn glir i hwyluso mynediad cleifion ati a chynyddu eu hymwybyddiaeth. | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 15 (4) | Mae'r weithdrefn gwyno'n weladwy ar yr hysbysfwrdd ac ar fwrdd yr ystafell aros. Byddwn yn sicrhau bellach fod y staff yn tynnu sylw ati os oes angen. | Ashton Jones | 15 Ionawr 2018 |
| Rhaid i'r practis adolygu effeithiolrwydd y system sydd ar waith ar gyfer ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae angen rhoi systemau adborth cleifion ychwanegol ar waith er mwyn cynnig cyfle i gleifion roi eu hadborth/sylwadau yn | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad | Mae gennym flwch adborth a sylwadau y byddwn yn awr yn dechrau ei drafod â chleifion. Darparu'r ffurflenni adborth yn rheolaidd er mwyn cael mwy o adborth.<br><br>Mae gennym flwch sylwadau ac adborth bellach sydd ar gael ar gyfer cleifion. | Ashton Jones | 15 Ionawr 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ysgrifenedig a'u cyflwyno yn y practis. | 14 (2)<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1 | Dylai'r holl aelodau staff annog cleifion i roi adborth.<br>Mae gennym hefyd system adborth fewnol o'r enw cyfathrebu cleifion sy'n anfon arolygon neges destun allan i'w cwblhau. | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis weithredu asesiad risg unigol ar gyfer un aelod o'r staff lle mae cais yn cael ei wneud am fanylion ychwanegol ynghylch statws ei frechiadau. | Safon Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008, Rheoliad 14 (1) (b) | Mae asesiad risg wedi cael ei gwblhau ar gyfer yr holl staff sydd â lefelau titr isel. Rydym hefyd wedi cael rhagor o eglurhad ynghylch manylion brechiadau, sydd wedi datrys y sefyllfa a chadarnhau lefelau titr boddhaol.<br>Byddaf yn adolygu ffeiliau'r staff yn flynyddol i wirio'r lefelau titr ar gyfer yr holl staff clinigol a gweld a oes angen dos atgyfnerthu dilynol. | Ashton Jones | Wedi'i gyflawni |
| Rhaid i'r practis adolygu lleoliad un o'r switshis ynysu er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydrau-X. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br>Rheoliadau | Mae hyn wedi cael ei gofnodi gyda thîm gwasanaethu a thrwsio'r cwmni er mwyn trefnu i'r swîts ynysu gael ei leoli'n briodol ar unwaith. | Ashton Jones | 15 Ionawr 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008, Rheoliad 14 (1) (b)<br><br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | | | |
| Rhaid i hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd fod yn gyfredol ar lefel sy'n briodol ar gyfer nyrsys deintyddol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (b)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 7.3.1 | Rwyf bellach wedi creu matrics hyfforddiant mwy trwyadl i dynnu sylw at unrhyw ofynion hyfforddiant wrth inni fynd yn ein blaenau a byddaf yn trefnu sesiwn hyfforddi ddigonol â'r staff mewn perthynas â'r pwnc gofynnol.<br><br>Byddaf yn adolygu'r matrics hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn cael ei gwblhau ac yn gyfredol. | Ashton Jones | 5 Ionawr 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) | | | |
| Mae angen i'r practis sicrhau bod prosesau archwilio yn cael eu cynnal yn gyfnodol a bod y broses yn cynnwys cynlluniau gweithredu, monitro a chanlyniadau. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (2) | Drwy ddefnyddio system fonitro fewnol y cwmni, 'My Comply', yn gywir, gallaf sicrhau bod yr archwiliadau yn cael eu cynnal yn unol â'r fframiau amser cywir. Ar ôl derbyn yr adborth hwn, rwyf bellach yn gwybod bod angen i gynlluniau gweithredu, canlyniadau a monitro fod yn fwy manwl.<br>Os caiff unrhyw beth ei nodi gan yr archwiliad, byddaf yn cytuno ar ffrâm amser fyrrach gyda'r deintydd wrth roi adborth ar gyfer yr archwiliad nesaf. | Ashton Jones | 28 Chwefror 2018 |
| Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad | Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd un i un gyda'r clinigwyr er mwyn trafod y canfyddiadau hyn a sicrhau bod ymwybyddiaeth ynghylch y meysydd i'w gwella. Byddaf yn monitro'r gwelliannau y tynnwyd sylw atynt yn rheolaidd i | Ashton Jones | 31 Ionawr 2018 ac yn barhaus |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid cwblhau camau gweithredu dilynol a gwaith monitro yn rheolaidd ar gyfer archwiliadau cadw cofnodion. | 14 (1) (b) | wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnal mewn modd cyson.<br><br>Os caiff unrhyw beth ei nodi gan yr archwiliad, byddaf yn cytuno ar ffrâm amser fyrrach gyda'r deintydd wrth roi adborth ar gyfer yr archwiliad nesaf. Os na fyddaf yn gweld gwelliannau o hyd ar ôl cynnal ail archwiliad, byddwn yn cynnwys fy rheolwr cymorth clinigol, a fydd yn cefnogi wrth gymryd y camau nesaf. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dim materion gwella | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Ashton Jones**

**Swydd: Rheolwr y practis**

**Dyddiad: 20/12/2017**